

# CYFARFOD PENDERFYNIADAU ARWEINYDD Y CYNGOR

**DYDD** Iau, 14 Mawrth 2019

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd: E. Dole (Aelod o'r Bwrdd Gweithredol).

## Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:

B Hale, Cydgysylltydd Datblygu Economaidd  
C. Owen, Swyddog Biwro  
S. Sauro, Swyddog Biwro  
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Swyddfa'r Arweinydd - Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP. - 2.00 - 2.30 yp

### 1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

### 2. LLOFNODI FEL COFNOD CYWIR COFNOD PENDERFYNIADAU'R CYFARFOD A GYNHALIWDYD AR Y 19EG CHWEFROR, 2019.

**PENDERFYNWDYD** llofnodi bod Cofnod Penderfyniadau'r cyfarfod oedd wedi'i gynnal ar 19 Chwefror, 2019 yn gofnod cywir.

### 3. CYMORTH ARIANNOL O'R CRONFEYDD GRANTIAU CANLYNOL: GRONFA CYLLID A DARGEDIR A'R CRONFA'R DEGWM.

**PENDERFYNWDYD** cymeradwyo'r ceisiadau canlynol am gymorth o Gronfa'r Degwm a'r Gronfa Cyllid a Dargedir yn amodol ar y telerau a'r amodau arferol ac ar y rhai a bennwyd yn yr adroddiad.

Y Gronfa Cyllid a Dargedir		
Cyfeirnod y Cais	Yr Ymgeisydd	Y Dyfarniad
TFF/18/06	Cyngor Tref Pen-bre a Phorth Tywyn	£18,792.00
TFF/18/08	Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru	£20,000.00
TFF/18/09	Neuadd Bentref Newydd Llanarthne	£20,000.00

Cronfa'r Degwm		
Cyfeirnod y Cais	Yr Ymgeisydd	Y Dyfarniad
WCF-18-23	Neuadd Bentref Llanarthne	£10,000.00
WCF-18-22	Clwb Golf Glynhir	£3,000.00

### 4. ADRODDIADAU NAD YDYNT I'W CYHOEDDI.

**PENDERFYNWDYD** yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, na fyddai'r eitemau canlynol yn cael eu cyhoeddi, gan fod yr

adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.

**5. CRONFA CYCHWYN BUSNES/TWF BUSNES SIR GAERFYRDDIN.**

Yn sgil cynnal y prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 5 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad am ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig ynghylch materion ariannol neu faterion busnes unrhyw unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).

Yr oedd y prawf budd y cyhoedd o ran y mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth fanwl am faterion a dyheadau busnes ac ariannol yr ymgeiswyr. Yn yr achos hwn, yr oedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw cyfrinachedd yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran tryloywder ac atebolrwydd, gan y byddai datgelu'r wybodaeth yn debygol o niweidio'r ymgeiswyr ar hyn o bryd.

Gan gyfeirio at gofnod 2 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Chwefror 2018, rhoddodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol ystyriaeth i geisiadau am gymorth gan Gronfa Cychwyn Busnes Sir Gaerfyrddin a Chronfa Tyfu Busnes Sir Gaerfyrddin. Blaenoriaeth y ddwy gronfa oedd cefnogi'r gwaith o greu swyddi a busnesau newydd yn y Sir.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r ceisiadau canlynol am gymorth o Gronfa Cychwyn Busnes Sir Gaerfyrddin a Chronfa Tyfu Busnes Sir Gaerfyrddin, yn amodol ar y telerau a'r amodau arferol a'r rhai a bennwyd yn yr adroddiad:**

<b>Cronfa Cychwyn Busnes Sir Gaerfyrddin</b>		
<b>Cyfeirnod y Cais</b>	<b>Yr Ymgeisydd</b>	<b>Y Dyfarniad</b>
SU59	J&C Garages Ltd	£10,000
SU60	Canolfan Arddio Ivydene	£10,000
SU61	Viva La Crepe (Crempog am Byth)	£4,961.27

<b>Cronfa Tyfu Busnes Sir Gaerfyrddin</b>		
<b>Cyfeirnod y Cais</b>	<b>Yr Ymgeisydd</b>	<b>Y Dyfarniad</b>
GF55	Darkin Architect	£4280.82
GF71	Altair Analytical Ltd	£9,690.

**AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL**

**DYDDIAD**